COFNODION O GYFARFOD PWYLLGOR POLISI A CHYLLID, CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWYD O BELLTER (TRWY ZOOM), NOS FERCHER, 30AIN MEDI 2020 AM 6.30 P.M.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd C. Hughes (Cadeirydd)
Cynghorwyr H. Fleet, D. Howcroft, D. Jones, T. Pearson, M. Pickard, P. Richards.

SWYDDOGION: Mrs C. J. Earley, Clerc y Dref
Ms L.M Austin, Swyddog Gweinyddol Cynorthwyol

78/20 Croeso ag Ymddiheuriadau am Absenoldeb:

Croesawyd yr Aelodau i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr M. Jones,, H. Meredith a K. Swindon.

79/20 Datgan Cysylltiadau:

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiadau personol a / neu gysylltiadau sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau.

Datganodd y Cynghorydd M. Pickard cysylltiad personol efo eitem 12 - Cais NWAMI am grant bychan. Fodd bynnag, am fod maint y cais am £500 neu lai, roedd yn gymwys am eithriad ac felly nid oedd yn gysylltiad i ragfarnu.

80/20 Ymwelwyr:

a) Croesawyd Mark Roberts, Cadeirydd Ymddiriedolaeth Pier Victoria Colwyn (YPVC), a Marc Roberts, Cyfarwyddwr Cynlas Cyf., i'r cyfarfod gan y Cadeirydd er mwyn iddynt roi diweddariad ar gynlluniau YPVC ar gyfer y Pier a'r ymdrechion i godi arian hyd yn hyn.

Rhoddodd Marc Roberts adroddiad byr am ei gefndir a'i swyddogaeth, ac eglurodd bod gan Ymddiriedolaeth y Pier bwrdd grymus o aelodau gyda chefnogaeth gan arbenigwyr proffesiynol ac maent wedi sefydlu cysylltiadau cadarn gyda ChBS Conwy, Llywodraeth Cymru a Cadw. Mae'r Ymddiriedolaeth o'r farn mai nawr yw'r adeg iawn i symud ymlaen gyda'r gwaith efo'r pier, er mwyn manteisio ar y weledigaeth newydd a'r gwelliannau a wnaed ym Mae Colwyn.

Nod yr Ymddiriedolaeth yw darparu Canolfan Diwylliannol a Threftadaeth unigryw i gyfannu'r datblygiadau eraill ar y glannau ac ym Mae Colwyn, gyda sylw arbennig ar yr iaith Gymraeg a chysylltiadau addysgiadol. Fe gyflawni'r prosiect mewn tri cham, a'r cam cyntaf bydd gwaith cychwynnol yr awdurdod lleol i atgyfnerthu'r Promenâd ac i adfer y Pier byrrach. Yn y pen draw, mae'r Ymddiriedolaeth yn gobeithio creu oddeutu 40 o swyddi newydd, denu 100,000 o ymwelwyr ychwanegol pob blwyddyn a defnyddio buddsoddiad o £1.2 miliwn o'r sector preifat. Bydd yn canolbwyntio ar ansawdd / esthetig a bydd y cynllun busnes yn gorfod dangos y gall sefyll ar ei sylfaeni ei hun ac nid dibynnu ar gyllid cyhoeddus.

Fe gyflwynwyd cais yn ddiweddar i'r Gronfa Treftadaeth Bensaernïol am astudiaeth / adroddiad hyfywedd, gyda'r gwaith i fod i ddechrau yn Hydref a'i gwblhau yn Ionawr 2021. Yn y cam nesaf (y cam datblygu) bydd angen arian cyfatebol ar gyfer ffioedd y pensaer ayb (£15,000). Bydd y cam hwn yn cynnwys ymgysylltiad helaeth gyda

rhandeiliaid, gweledigaeth a sylw mwy efo'r cyhoedd, ymrwymiad gydag arbenigwyr yn y sector ac ymgyrch egnïol i godi arian. Yn amodol ar gynllun busnes grymus ac ymgyrch codi arian llwyddiannus, bydd cam tri yn gweld y Pier yn ymddangos ar ei newydd wedd. Amserlen yr Ymddiriedolaeth yw cwblhau'r adroddiad hyfywedd, mwy o ymdrechion i godi arian ac i godi proffil yr Ymddiriedolaeth erbyn Ionawr 2021, cwblhau'r cam datblygiad, gwneud cais am grant am gyllid erbyn Rhagfyr 2021 a dechrau ar y gwaith o gwblhau cam 3 erbyn 2022.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod y newyddion am y Pier wedi bod yn dawel a'i gwefan, er yn rymus, angen ei ddiweddaru. Mae angen hefyd i roi mwy o gyhoeddusrwydd i'r siop. Yn ddelfrydol, mae angen i aelodaeth y Bwrdd bod yn gryfach, gyda 2-3 o wirfoddolwyr ychwanegol ar y Bwrdd i greu cymysgedd cywir.

Diolchodd y Cadeirydd i'r ymwelwyr am y cyflwyniad a gwahoddwyd yr Aelodau i ofyn cwestiynau. Roedd y cwestiynau yn ymdrin â: pa weithgareddau addysgiadol a fwriedir? - maent wedi bod mewn cysylltiad ag Ysgol Bod Alaw i gael adborth y disgyblion, cael syniadau ac i fod yn seinfwrdd; oedd yna unrhyw bosibilrwydd i RNLI cael ei sefydlu ym Mae Colwyn yn sgil y nifer o ymwelwyr i'r bad achub yn Llandudno a'r effaith ar ddatblygiad y glannau yn y Rhyl - Cadarnhaodd MR yr hoffent weld RNLI yn rhan o'r datblygiad. Gofynnodd Marc Roberts am wybodaeth am gysylltiadau a dywedodd y byddai'n newid y cyflwyniad i gynnwys RNLI.

Terfynwyd y cyflwyniad gan yr ymwelwyr trwy ddweud yr hoffent gael trafodaeth fwy manwl am y datblygiadau yn y dyfodol ac i gasglu awgrymiadau. Fe gadarnhawyd bod gan Ymddiriedolaeth y Pier £24,000 yn y banc.

Diolchwyd i'r ymwelwyr am y cyflwyniad ac yna, gadawsant y cyfarfod.

b) Nodwyd copi o gofnod olaf y Cyngor (197/17) ynglŷn â Pier Victoria Colwyn a YPVC gan yr Aelodau.

81/20 <u>Cofnodion:</u>

a) Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi cywirdeb Cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 19eg Awst 2020.

b) Penderfynwyd rhoi awdurdod i'r Cadeirydd llofnodi cofnodion cyfarfod olaf yr Is-Bwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 16eg Mai 2016, yn dilyn y penderfyniad i ddirwyn yr Is-Bwyllgor i ben.

82/20 <u>Materion yn Codi o Gyfarfodydd Blaenorol:</u>

a) Cofnod 43/20 – Gwaith ar Neuadd y Dref:

Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, ymateb gan AllTRades ynglŷn â'r costau ychwanegol byddai'n golygu i wahaniaethu'r gwaith (yn ymwneud a sgaffaldiau), a dywedodd wrth yr Aelodau iddi ofyn am eirda ychwanegol gan Goleg Llandrillo parthed y gwaith a gwblhawyd ar eu safle yn ddiweddar.

Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau, oherwydd gwybodaeth ychwanegol a gafwyd ar-lein a phryderon yr Aelodau am y pris, roedd yn gobeithio trefnu cyfarfod(ydd) safle gyda Brenig Construction a / neu gontractwyr lleol eraill o fewn yr wythnosau nesaf,

a'i bod wedi derbyn manylion am 2-3 cwmni ychwanegol oddi wrth Judi Greenwood, Rheolwraig Prosiect THI, er mwyn cael mwy o brisiau i gymharu.

Diolchodd yr Aelodau i'r Cynghorydd H. Fleet am y gwaith a wnaed ganddi i ddarganfod / rhannu'r wybodaeth briodol.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc rhoi diweddariad i'r Cyngor yn y cyfarfod nesaf.

b) Nodwyd gan yr Aelodau y disgwylir am ymateb i'r cais am gyllid gan Gwynt y Môr tuag at y llwybr cerflunwaith yn ystod yr wythnos, a bydd y Clerc yn dosbarthu'r ymateb unwaith daw i law.

83/20 <u>Cyllid:</u>

a) i) Penderfynwyd rhoi awdurdod am y taliadau a wnaed ar ran y Cyngor yn y cyfnod o 1/8/2020 i 31/8/2020 sy'n ymddangos yn Atodiad 'A' sydd gyda hwn.

ii) Penderfynwyd rhoi awdurdod i'r Clerc derbyn y cynnig am ostyngiad o 20% fel tanysgrifiad blynyddol efo Zoom Pro (yn hytrach na £11.99 pob mis) gan arbed dros £30 mewn blwyddyn

(b) ***Penderfynwyd rhoi awdurdod i'r Clerc a'r Cadeirydd gwirio / llofnodi datganiadau cysoni'r banc fel yr oedd ar 31/8/2020.***

(c) ***Penderfynwyd nodi'r ohebiaeth a ganlyn oddi wrth CCLA:***

i) Adroddiad y Farchnad – Awst
ii) Cyflwyniad o gyfnod hysbysebu am ad-daliadau yn y cyllidebau eiddo a reolir gan CCLA
iii) Diwedd y moratoriwm ar ddelio.

(ch) ***Penderfynwyd nodi'r graddfeydd cyflog newydd NALC/SLCC o ganlyniad i godiad cyflog o 2.75% yn ôl dyddiedig i 1af Ebrill***

84/20 <u>Llywodraeth Cymru:</u>

Fe nodwyd gan yr Aelodau'r e-bost a anfonwyd gan y Clerc ynglŷn â mesurau cloi lawr lleol a fydd mewn grym o 1af Hydref yn y pedair Sir yng Ngogledd Cymru.

85/20 <u>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC):</u>

(a) Cyflwynodd y Clerc gohebiaeth i'w ystyried oddi wrth GBSC ynglŷn â'r lle tân ym mwthyn Meadow Lodge, oedd am gael ei ddymchwel mewn ychydig wythnosau. Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau bod y Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio wedi gofyn a ellir achub y lle tân rhag cael ei ddymchwel oherwydd iddo gael ei dynodwyd i fod o ddiddordeb hanesyddol.

Gofynnodd yr Aelodau os oedd y lle tân wedi cael ei gynnig i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol / Cadw gan fod ganddynt raglen o adnewyddu eiddo, neu a fyddai gan Gastell Gwrych diddordeb. Nodwyd gan yr Aelodau bydd angen cynnal trafodaethau yn fuan am fod y gwaith ar Meadow Lodge i ddigwydd yn yr wythnosau nesaf.

Penderfynwyd cynnig bod y lle tân n cael ei gynnig i Gastell Gwrych, ar y ddealltwriaeth mai hwy fyddai'n gyfrifol am y costau o'i symud a'r cludiant.

b) Hysbyswyd yr Aelodau gan y Clerc am sgwrs a gafodd gyda Judi Greenwood, Rheolwraig Prosiect THI, gan ddweud bydd 7 Ffordd Abergele wedi cael ei gwblhau yn fuan a bydd y Cynghorwyr Trefol yn cael gwahoddiad i ymweld â'r adeilad cyn iddo gael ei agor yn llawn. Dywedodd y Clerc bod cytundeb Judi yn dod i ben yn fuan ond byddai'n parhau gydag Ymddiriedolaeth Datblygu Gogledd Cymru. Mae gan yr Ymddiriedolaeth dyheadau i drin ag adeiladau eraill yn y dref.

Nodwyd gan yr Aelodau bod cynrychiolydd o Ymddiriedolaeth Datblygu Gogledd Cymru wedi gofyn i gael dod i roi anerchiad byr i gyfarfod llawn nesaf y Cyngor.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc estyn gwahoddiad i gynrychiolydd o Ymddiriedolaeth Datblygu Gogledd Cymru ddod i gyfarfod llawn nesaf y Cyngor.

86/20 <u>Tystysgrif Gwasanaeth i Aelodau:</u>

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i gynnig gan y Cynghorydd P. Richards i gyflwyno Tystysgrif Gwasanaeth i Aelodau pan fyddant yn gadael y Cyngor Tref. Byddai'r Dystysgrif yn rhoi manylion am ddyddiadau'r gwasanaeth ac yn rhoi tysteb / tystiolaeth ddefnyddiol am wasanaeth yr Aelod sy'n gadael. Cefnogwyd y syniad yn llawn gan yr Aelodau a chafodd y cynnig ei eilio.

Penderfynwyd argymell bod y Cyngor yn paratoi Tystysgrif Gwasanaeth i'w gyflwyno i Aelodau pan fyddant yn ymddiswyddo / ymddeol o'i swydd.

87/20 <u>Glanhau Strydoedd:</u>

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i gynnig gan y Cynghorydd C. Hughes, oedd wedi cael cwynion gan fusnesau o ganol y dref, am gyflwr glendid y strydoedd. Datganwyd pryderon am y mowld, mwsogl a staeniau bwyd ar hyd y strydoedd ac o gwmpas y dodrefn stryd. Roedd y Cynghorydd Hughes wedi derbyn pris o £500 y diwrnod oddi wrth ERF am griw dau ddyn. Tybiwyd byddai'r gwaith ar Ffordd yr Orsaf a Sea View Road yn cymryd rhwng 5 a 7 diwrnod.

Cefnogwyd y cynnig gan yr Aelodau ar y sail bod hon yn fater o iechyd cyhoeddus a bod yna ddigon o arian yn y gyllideb i wneud hyn.

Penderfynwyd argymell bod y Cyngor yn cymeradwyo'r cynnig i ofyn am 5 diwrnod (dim mwy) i lanhau strydoedd am gost o £2,500 (angen cyllideb newydd) ar yr amod y derbynnir cadarnhad gan Andrew Wilkinson bod y cytundeb wedi bod trwy'r broses caffaeliad cywir o fewn CBSC, a bod gwaith glanhau, chwynnu, gwaith i'r dirwedd a gwaith trwsio yn cael ei wneud ar yr un amser.

88/20 <u>Menter Kind Bay (KBI):</u>

Cyflwynodd y Clerc cyngor a dderbyniwyd oddi wrth swyddog cyfreithiol CBSC i'w ystyried, yn dilyn cais gan KBI i Neuadd y Dref cael bod yn gyfeiriad swyddogol iddynt.

Mynegodd yr Aelodau eu pryder am y posibilrwydd o risg diogelwch i'r staff os bydd cyfeiriad Neuadd y Dref yn cael ei ddefnyddio, ac fe nodwyd bod gan y Cyngor cyfrifoldeb gofal dros y staff. Roedd y Cadeirydd o'r farn byddai caniatáu i un mudiad defnyddio'r cyfeiriad yn arwain at fwy o geisiadau i ddefnyddio Neuadd y Dref i fod yn gyfeiriad gohebiaeth ac fe nodwyd y bu ymdriniaeth ddrwg yn y wasg yn ddiweddar am y defnydd o gyfeiriadau 'cofrestredig' i fusnesau / mudiadau.

Penderfynwyd, trwy fwyafrif ar bleidlais, i wrthod y cais ac i ofyn i'r Clerc adael i KBI wybod am y penderfyniad.

89/20 <u>Offer y Swyddfa:</u>

Cyflwynodd y Clerc mater i gael ei ystyried, sef y dewis i brynu un neu ddau liniadur ychwanegol i helpu efo'r gwaith adref parhaol ac i roi awdurdod i ymadael a hen liniadur y Clerc (oddeutu deg mlwydd oed).

Penderfynwyd cymeradwyo prynu gliniaduron ychwanegol, fel bo'r angen (ar ddewis y Clerc a PCRT).

90/20 <u>Lwfansau Ward Aelodau Lleol:</u>

Ni dderbyniwyd unrhyw gynigion am brosiect oddi wrth yr Aelodau.

91/20 <u>Grantiau:</u>

Cyflwynodd y Clerc y ceisiadau am grantiau bychan a dderbyniwyd yn Chwarter 2 i'w ystyried, fel maent yn ymddangos yn Atodiad 'B' sydd gyda hwn.

- Datganodd y Cynghorydd M. Pickard ei gysylltiad â chais X, ond am fod y cais am swm llai na £500, roedd eithrio yn gymwys ac felly nid oedd y cysylltiad yn un a all ragfarnu.

Penderfynwyd argymell cymeradwyo ceisiadau Y a Z am grant fel yr amlinellir yn Atodiad 'B' sydd gyda hwn.

Cynigiwyd ac eiliwyd i wrthod cais X ar y sail na ellir cynnal nac annog y gweithgareddau yn ystod cyfnod y pandemig Covid-19 presennol.

Yna cynigiwyd gwelliant sef i ohirio'r cais hyd nes derbynnir mwy o wybodaeth gan yr ymgeisydd, er mwyn iddo wneud yn eglur pa weithgareddau oedd am gael eu cefnogi gan y grant, ac os oedd y rhain am ddigwydd ar-lein.

Gofynnwyd i'r Aelodau pleidleisio, yn gyntaf ar y gwelliant i ohirio'r cais hyd nes derbynnir mwy o wybodaeth oddi wrth yr ymgeisydd. Roedd y bleidlais ar y gwelliant yn gyfartal, 3 o blaid a 3 yn erbyn. Defnyddiodd y Cadeirydd ei bleidlais fwrw i ohirio gwneud penderfyniad tan gyfarfod y Cyngor Llawn ar y sail y gofynnwyd am fwy o wybodaeth.

Penderfynwyd gohirio cais X tan gyfarfod Llawn y Cyngor ar 19^{eg}Hydref a gofyn i'r Clerc ceisio mwy o wybodaeth gan NWAMI am ei gweithgareddau arfaethedig.

92/20 Rhoddodd y Cadeirydd teyrnged i'r Cynghorydd Sirol Dave Cowans a fu farw yn ddiweddar, a chyfeiriodd at ei wasanaeth ymroddedig i'r ardal leol dros nifer o flynyddoedd.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.35 p.m. .....Cadeirydd

Treasurers A/c 00164077

List of Payments made between 01/08/2020 and 31/08/2020

Date Paid	Payee Name	Reference	Amount Paid	Authorized Ref	Transaction Detail
04/08/2020	Barclaycard	DD	24.39	I 019	Tesco Mobile/Zoom Services
07/08/2020	Cynnal Cymru	FP	114.00	I 018	Carbon Literacy Course
07/08/2020	View Creative	FP	180.00	I 018	Annual Report Infographic
07/08/2020	LiveTech	FP	744.00	I 018	Website Access Compliance
07/08/2020	Conwy County Borough Council	FP	4,911.60	I 018	CIB Bryn Euryn Baskets
07/08/2020	Microshade Business Consultant	FP	127.78	I 018	IT Services
07/08/2020	Rialtas	FP	464.40	I 018	Finance Software
07/08/2020	I P Williams	FP	606.24	I 018	Translations
07/08/2020	AD Window Cleaning	FP	1,180.00	I 018	CIB Watering
07/08/2020	Tape Music & Film	FP	550.00	I 018	UKE A BAY Virtual Event
14/08/2020	Employees	FP	5,147.02	I 018	Salary August
14/08/2020	HMRC	FP	1,599.55	I 019	PAYE & NI
14/08/2020	Gwynedd Council	FP	1,580.79	I 019	Pensions Conts August
14/08/2020	Clerical Medical	FP	50.00	I 019	AVC Clerk
21/08/2020	S & L Industrial Cleaners	FP	65.00	I 020	Town Hall Windows
21/08/2020	GLS Educational Supplies	FP	64.76	I 018	Pedal Bins
21/08/2020	British Gas	DD	46.74	I 020	Town Hall June/July
21/08/2020	British Gas	DD	440.11	I 020	Rhiw Road June/July
21/08/2020	Bus Inst Access Savings Acc	TFR	150,000.00		Transfer
21/08/2020	British Gas	DD	192.71	I 020	Gas Rear Annex June/Jul
28/08/2020	OneCom	DD	66.30	I 020	Phone/Broadband

Total Payments 168,155.39

Summary of Small Grant Applications for 2020/21

	Applicant:	Amount Requested:	Amount Rec / Approved:	Purpose of Grant:	Notes / Exp Powers:	S137 Total	Date Paid	Report req/ received
	Urgent Covid-19 grant apps considered 21.4.20 (PCRT):							
A	CAIS Ltd	£500	£500.00	To produce150 face visors, with sterile packaging, to protect staff and vulnerable service users, in conjunction with Rydal Penrhos School	Power of Wellbeing (s.137)		23.4.20	Received 07.05.20
B	Coast Community Radio Media CIC	£500	£500.00	To obtain licences and a transmitter to broadcast on FM radio (community short term license to provide community radio during pandemic)	subject to securing additional funds nee Power of Wellbeing (s.137)		23.4.20	n/a
C	Print my Route Ltd	£500.00	£500.00	To make 3D printed visor/face shields for frontline workers in the local area. Cost is £1.20 per visor.			23.4.20	
D	St Joseph's Catholic Church	£1,000	£500.00	Towards costs of operating local volunteer hub, including fuel, transport, phones, groceries etc	yes - for phone and groceries costs only (not able to fund fuel) Power of Wellbeing (s.137)		1.5.20	
E	Sammuel L Turner	£500		To cover electricity costs and purchase filament/plastic reels to make PPE equipment for local/national hospitals (needs template and assistance)	suggest contact Rydal or Bryn Elian and work through them. Power of Wellbeing (s.137)		n/a	n/a
F	Scrubs Up Bay of Colwyn and Beyond	£500	£500.00	To purchase fabric, cord, buttons etc to make scrubs, theatre hats and scrub bags for NHS/community based frontline nursing and care staff	Power of Wellbeing (s.137)		23.4.20	Received
G	Ysgol Bryn Elian	£500	£500.00	To purchase materials to enable the school to make protective visors for frontline NHS staff.	Power of Wellbeing (s.137)		1.5.20	Received
H	Zaid Al-Obaidi	£500	£500.00	To purchase materials to 3D print face visors for hospitals and local care homes	received evidence of handover to hospital / care home(s) Power of Wellbeing (s.137)		23.4.20	Received
I	Fat Lads Football	£478	478 - REPAID	To Purchase Laser bed and materials to make 200 pieces of PPE for local hospitals, individual carers and local care homes.	Power of Wellbeing (s.137)		1.5.20	n/a repaid 7/5
	Sub-total		£3,500.00					
	Urgent Covid-19 grant apps considered 30.4.20 (PCRT):							
J	*Sure Hope Church, Old Colwyn*	*£500*	*£500.00*	*Towards the purchase of non-perishable food for the FoodShare programme at Sure Hope Church in Old Colwyn*	*Power of Wellbeing (s. 137)*		*1.5.20*	*07.05.20*
K	*Chicago 1935*	*£920*	*£500.00*	*To purchase food/supplies to deliver food parcels to the most vulnerable and make meals on site for those unable to do so themselves (e.g. homeless and elderly)a*	*Power of Wellbeing (s. 137)*		*1.5.20*	
L	*Scrubs Up Bay of Colwyn and Beyond*	*£500*	*£500.00*	** REPEAT APPLICATION* To purchase fabric, cord, buttons etc to make scrubs, theatre hats and scrub bags for NHS/community based frontline nursing and care staff	*Power of Wellbeing (s. 137)*		*7.5.20*	*Received*
	Sub-total		£1,500.00					
	Urgent Covid-19 grant apps considered 7.5.20 (PCRT):							
M	*Chicago 1935*	*£420*	*420*	**REPEAT APPLICATION (final application) To continue operating for an additional week; towards the purchase of food/supplies for food parcels.*			*18.5.20*	
N	*Sanctuary Trust*	*£490*	*0*	*To create 4 videos for Facebook page on how to make nutritious meals. (To cover the cost of 28hrs work by paid employee to develop recipes, produce flyers and make video).*			*n/a*	*n/a declined*
	Sub-total		*420*					
	Urgent Covid-19 grant apps considered 28.5.20 (PCRT):							
O	*Chicago 1935*	*£500*	*500*	**REPEAT APPLICATION To continue operating for an additional week; towards the purchase of food/supplies for food parcels.*			*1.6.20*	
P	*Sure Hope Church*	*£500*	*500*	** REPEAT APPLICATION To support the provision of weekly food parcels and hot meals for local families in need*			*29.5.20*	
Q	*St Josephs Church*	*£500*	*500*	** REPEAT APPLICATION To continue the weekly support being given to local individuals/families (including telephone support, shopping/pharmacy collections and food provision, where they have no ability to pay) (lot of offer is also available from CCBC at no cost)*			*29.5.20*	
			1500					
	Urgent Covid-19 grant apps considered 4.6.20 (PCRT):							
R	*NWAMI*	*£500*	*NIL*	*Food (£300) plus volunteer and admin/publicity costs for providing culturally/medically diet based food, collecting medication etc during June/July REFER to support available from WG/foodbanks for food supplies*				
	Urgent Covid-19 grant apps considered 11.6.20 (PCRT):							
S	*Old Colwyn Events / Foodbank*		*500??*	*To continue supporting Old Colwyn and Glyn ward residents with pharmacy collections and food parcels /shopping etc (for next three months)*			*n/a*	*not yet claimed - ceased operating*
T	*Conwy Sea Cadets*		*0*	*To assist towards building costs, whilst the group has no income*				
U	*Youth Shedz 4:28*		*500*	*Running costs for the soup n sox van, supporting on average 15 vulnerable people per week in the Colwyn Bay area*			*19.6.20*	
?	*Min y Don Bowling Club*	*£350*	*350*	*(deferred from 2019/20 due to Covid-19) - repair of club mower and seed / top soil for green*			*19.6.20*	
			850					
	P&F Committee 1.7.20:							
V	*Ty Gobaith*	*£500*	*500*	*To provide a local child with 2 days of vital nursing care; directly impacting 8 children within Rhos on Sea, Old Colwyn and Colwyn Bay*			*8.7.20*	
W	*Ysgol Llandrillo yn Rhos*	*£350*	*350*	*Towards the purchase of a defibrillator to be placed outside of the school*			*8.7.20*	
			850					
	P&F Committee 30.09.20							
X	NWAMI	£490		Towards the set up costs of a new community hub, replacing CCE				
Y	Relate Cymru	£450		Towards the training of 2 counsellors to be upskilled to provide telephone and online support for local residents, and a contribution towards IT equipment to facilitate this				
Z	Coast Community Media and Radio	£500		Towards the purchase of FM and DAB licences				
	ANNUAL BUDGET 2020/21 =	**£10,000**	**£8,620**			*#REF!*		
	Unspent Cllr Ward Allowances (19'20)	**£1,900**						
	Unspent small grants budget from 19'20	**£6,990**						
	Plus unclaimed Cllr Basic Payments 2019'20	**£3,200**						
		£22,090						

* S.137 of the Local Government Act 1972 gives the Council authority to incur expenditure which, in its opinion, is in the interests of, and will bring direct benefit to, its area or any part of it or all or some of its inhabitants, subject to an annual limit and certain restrictions and providing the benefit is commensurate with the expenditure to be incurred.